



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r  
Tribiwnlys Addysg (Cymru): gweithdai ymgynghori rhanddeiliaid  
ar ran Llywodraeth Cymru – adroddiad cryno**

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Markit Training & Consultancy Ltd ar ran Llywodraeth Cymru.



ISBN digidol 978-1-78903-170-6  
© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2017  
WG33620

# Cynnwys

|                                                                                                                                                                                    |    |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Cyflwyniad                                                                                                                                                                         | 2  |
| Methodoleg                                                                                                                                                                         | 3  |
| Canfyddiadau allweddol                                                                                                                                                             | 4  |
| Cwestiwn ymgynghori 1: Sut y dylid gweithredu'r cynlluniau datblygu unigol?                                                                                                        | 5  |
| Cwestiwn ymgynghori 2: Os dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gam wrth gam, sut y gellid eu rhannu yn ôl tranche?                                                            | 9  |
| Cwestiwn ymgynghori 3: Beth yw eich barn am y blaenoriaethau o ran sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i bartneriaid darparu wrth iddynt baratoi i drosglwyddo i'r system newydd? | 11 |
| Sylwadau i gloi                                                                                                                                                                    | 16 |

## Cyflwyniad

Ar 12 Rhagfyr 2016, cyflwynodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd a fydd yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ymrwymodd y Gweinidog i gael barn partneriaid ar y dewisiadau pontio drwy ymgynghoriad cyhoeddus llawn<sup>1</sup> a lansiwyd ar 27 Chwefror. Hefyd ymrwymodd y Gweinidog i gynnal digwyddiadau rhanbarthol i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol proses graffu'r Bil.

Yn unol ag ymrwymadau'r Gweinidog, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, yn gynharach eleni, bedwar digwyddiad rhanddeiliaid rhanbarthol mewn perthynas â Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Y lleoliadau oedd:

- Canolfan Halliwell, Caerfyrddin, 28 Chwefror
- Y Celtic Manor Resort, Casnewydd, 2 Mawrth
- Venue Cymru, Llandudno, 7 Mawrth
- Canolfan Gynadledda Consortiwm Canolbarth y De, Nantgarw, 9 Mawrth

Roedd y digwyddiadau yn agored i unrhyw un â diddordeb yn y diwygio deddfwriaethol hwn ac fe'u mynychwyd gan rieni, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, penaethiaid, athrawon, sefydliadau addysg bellach, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, aelodau panel tribiwnlys AAA, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Cynhaliwyd pob digwyddiad mewn dwy sesiwn rhwng 9.00-12.30 pm a 13.00-16.30. Agenda'r sesiwn oedd:

- Anerchiad fideo gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes;
- Cyflwyniad ar Raglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Briffio Technegol ar y Bil;
- Sesiwn holi ac ateb gyda phanel yn cynnwys cynrychiolwyr o adran Addysg Llywodraeth Cymru, yr adran Iechyd ac Awdurdod Lleol;
- Gweithdy ymgynghori yn ystyried dewisiadau ar gyfer gweithredu'r Bil.

---

<sup>1</sup> Dyddiad cau 9 Mehefin 2017 – am fwy o wybodaeth ewch at:  
<https://consultations.gov.wales/consultations/options-implementing-additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-bill?lang=cy>

## Methodoleg

Ar gyfer pob gweithdy 60 munud roedd cyfranogwyr yn eistedd mewn grwpiau o hyd at 12 o bobl. Darparwyd pecyn o ddeunyddiau ymgynghori dwyieithog a gwybodaeth gefndir i bob grŵp, a gofynnwyd iddynt ddewis cadeirydd grŵp, llefarydd ac ysgrifennydd. Yna gofynnwyd iddynt ystyried tri chwestiwn ymgynghori. Yn dilyn trafodaethau grŵp ar gyfer pob cwestiwn, crynhowyd pwyntiau allweddol pob grŵp gan ddefnyddio templed adborth safonol. Yn ystod cyfarfod llawn, dewiswyd grwpiau i ddarparu trosolwg byr o'u trafodaethau ar bob cwestiwn i'r gynulleidfa gyfan. Anogwyd cynrychiolwyr hefyd i gyflwyno ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad.

## **Canfyddiadau allweddol**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr yn yr wyth sesiwn o weithdai ymgynghori ar y dewisiadau ar gyfer gweithredu'r Bil. Cyfanswm nifer y cyfranogwyr yn y gweithdai (n) oedd 629; nifer ychydig yn is na'r cyfanswm a oedd yn bresennol gan nad oedd pob cyfranogwr yn gallu aros am y sesiynau gweithdy.

## Cwestiwn ymgynghori 1: Sut y dylid gweithredu'r cynlluniau datblygu unigol?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc golli darpariaeth neu amddiffyniad statudol presennol sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu ei anghenion yn ystod neu o ganlyniad i drosglwyddo i'r system newydd. Mewn gwirionedd, golyga hyn i raddau y byddai'r systemau AAA/AAD cyfredol yn parhau i weithredu ochr yn ochr â'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd, tan y pwynt terfyn penodol. Bydd y dysgwyr hynny sydd â datganiadau cyfredol yn parhau i fod â'r un hawliau ac amddiffyniad cyfreithiol tan y bydd cynllun datblygu unigol yn cael ei roi ar waith iddynt.

Wrth ystyried sut y dylai gweithredu'r cynllun datblygu unigol ddigwydd, rhoddwyd dau ddewis i gyfranogwyr y gweithdy i'w trafod. Gofynnwyd iddynt ddewis eu hopsiwn dewisol ac i roi rhesymau dros eu dewis.

### Dewis 1a) Cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gydag un dyddiad gweithredu

Yn ddamcaniaethol, byddai dull o roi'r cyfan ar waith ar unwaith yn golygu y byddai'r system newydd yn berthnasol i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol o'r un pwynt mewn amser. 15.74% oedd cyfran y bobl oedd yn cytuno gyda'r opsiwn hwn (n = 99).

Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r dewis hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i ddarparu eglurder i'r holl randdeiliaid, i osgoi cael dwy system yn gweithredu ar yr un pryd ac i gael dull o weithredu sy'n deg i bob dysgwr. Hefyd byddai cael un dyddiad gweithredu, o bosibl, yn gwneud cydweithio a gweithio traws-ffiniol rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd yn fwy syml. Ymysg yr enghreifftiau o adborth roedd:

*'Mae'r dull o roi'r cyfan ar waith ar unwaith, o safbwynt deddfwriaethol, yn gadarnhaol gan ei fod yn rhoi mwy o eglurder a chydaddoldeb ar draws gwahanol sectorau a rhanbarthau. Fodd bynnag fe fyddai angen cyfnod rhagarweiniol ar y dull hwn.'*

*'Rydym yn teimlo'n angerddol y dylai fod un dyddiad gweithredu. Gwnewch un system syml y gall pawb eu deall sy'n osgoi'r angen i ysgolion weithio gyda dwy system a fyddai'n gymhleth iawn i'w rheoli.'*

*'Mae newid yn her ond os yw gweithredu'n digwydd fesul cam bydd ond yn ymestyn y pryder a'r llwyth gwaith.'*

Roedd y rhesymau a roddwyd dros wrthod y dewis hwn yn adlewyrchu pryderon cyfranogwyr ynghylch llwyth gwaith ac ymarferoldeb y broses weithredu, yn enwedig ar gyfer y cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol. Teimlwyd gan lawer bod y goblygiadau o greu cynlluniau datblygu unigol i un amserlen ar gyfer pob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn anymarferol, yn arbennig mewn lleoliadau sydd â nifer fawr o ddysgwyr o'r fath. Roedd y rhesymau eraill dros wrthod y dewis hwn yn canolbwyntio ar

effaith niweidiol posibl gweithredu brys ar ansawdd y broses a hyder ymarferwyr yn y system newydd. Ymysg yr enghreifftiau o adborth roedd:

*'Byddai'n achosi llawer o straen ar staff ysgol gan y gallai amser annigonol a diffyg hyfforddiant arwain at arferion gwael h.y. bod gweithredu'r cynlluniau datblygu unigol yn cael eu gwneud yn wael'.*

*'Byddai effaith hyn ar lwyth gwaith a datblygiad y gweithlu yn heriol ar draws pob sefydliad a phroffesiwn.'*

## **Dewis 1b) Cyflwyno cynlluniau datblygu unigol mewn camau**

82.83% oedd cyfran y bobl oedd yn cytuno gyda'r opsiwn hwn (n = 521).

Cytunai llawer o gyfranogwyr, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws lleoliadau ac awdurdodau lleol, ac i fod yn deg ac yn gyfartal i bob dysgwr, bod angen cyflwyno gweithredu'r cynlluniau datblygu unigol drwy gamau gorfodol yn genedlaethol. Byddai dull gweithredu o'r fath yn rhoi mwy o amser i ymarferwyr ddatblygu'r cynllun datblygu unigol statudol gan ddefnyddio'r ymarfer o ganolbwyntio ar y person o bosibl am y tro cyntaf.

Roedd y rhan fwyaf o blaid cyfnod pontio wedi'i ddiffinio'n glir h.y. cytuno ar gyfnod y bod angen i'r datganiadau presennol a'r cynlluniau fod wedi newid a sicrhau bod cynllun datblygu unigol wedi ei gwblhau ar gyfer pob dysgwr ADY cymwys erbyn dyddiad penodol. Roedd yr amserlen a awgrymwyd ar gyfer gweithredu yn amrywio gryn dipyn o 12 mis, blwyddyn academaidd fel arfer, i hyd at bum mlynedd. Roedd cyflwyno fesul cam yn cael ei ystyried yn fwy ymarferol ac yn ymddangos yn fwy cydnaws â'r farn ynghylch cyflwyno cynllun datblygu unigol mewn llawer o'r lleoliadau a gynrychiolwyd yn y gweithdai. Dangosodd adborth fod arweiniad diamwys ynghylch pa tranche(s) o ddysgwyr i flaenoriaethu yn hanfodol.

- Roedd y rhesymau penodol a roddwyd ar gyfer cefnogi gweithredu cynlluniau datblygu unigol fesul camau yn cynnwys:
- Byddai er budd gorau dysgwyr gan eu bod yn ganolog i'r broses.
- Bydd angen digon o amser ar leoliadau addysg i weithredu'r arferion yn effeithiol ac ystyrlon, gan sicrhau fod 'ansawdd' yn hollbwysig.
- Bydd datblygu'r gweithlu ar gyfer holl ymarferwyr yn cymryd amser i'w gyflawni.
- Bydd yn rhoi mwy o amser ar gyfer ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person i ddatblygu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol.
- Byddai'n caniatáu arfer i ddatblygu ac esblygu dros amser gyda chyfleoedd i ddysgu gan eraill megis y lleoliadau peilot.

- Byddai'n darparu cyfleoedd ar gyfer adolygu, mireinio a sicrhau ansawdd prosesau wrth i'r cynlluniau datblygu unigol gael eu gweithredu.

Ymysg yr enghreifftiau o adborth roedd:

*'Os rhoddir digon o amser i baratoi, yna gall lleoliadau weithio tuag at ddyddiad gweithredu cenedlaethol; mwy cyson a theg.'*

*'Nid yw'n realistig i gael un dyddiad oherwydd maint y gwaith sydd dan sylw; oherwydd diffyg capasiti a maint y gwaith, bydd ansawdd y cynlluniau yn dioddef.'*

*'Bydd dull cam wrth gam o weithredu yn helpu'r broses ac yn caniatáu bod cyfnod realistig o amser yn cael ei roi i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu'n briodol.'*

*'Bydd dull cam wrth gam o weithredu yn rhoi cyfle i fyfyrion ar arfer. Bydd hyfforddiant yn haws i'w weithredu. Gwell cyfleoedd i drafod â dysgwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.'*

Roedd rhesymau dros wrthod yr opsiwn yn cynnwys pryderon y byddai yn creu dryswch o bosibl i rieni, yn enwedig os oes ganddynt fwy nag un plentyn ag ADY mewn cyfnodau allweddol gwahanol sy'n derbyn darpariaeth wahanol, naill ai'n ddatganiad neu'n gynllun datblygu unigol.

*'O safbwynt rhiant, pam na fydddech eisiau pob plentyn i gael yr un ansawdd o ddarpariaeth ar yr un pryd?'*

Nid oedd y cyfranogwyr eraill (1.43%) o blaid y naill opsiwn neu'r llall.

Pa ddull bynnag o weithredu'r cynlluniau datblygu unigol a fabwysiedir, pwysleisiodd cyfranogwyr yr angen am ymagwedd strategol gydgyssylltiedig er mwyn sicrhau bod diwygiadau ADY yn ategu mentrau polisi eraill Llywodraeth Cymru a'r cyd-destun addysgol ehangach. Er enghraifft,

- I gyd-fynd yn agos ag egwyddorion Dyfodol Llwyddiannus.
- I gyd-fynd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- I gydweddu â gweithredu'r Cynnig Gofal Plant newydd i Gymru.
- Mynd i'r afael â'r tensiwn sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y ffocws ar safonau ac agenda cynhwysiant mewn ysgolion, ac i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth ADY yn cael ei adlewyrchu yn y meini prawf a ddefnyddir i lywio'r drefn genedlaethol o gategoreiddio ysgolion.
- Sicrhau bod ymgynghorwyr her consortia addysg rhanbarthol yn rhoi statws cyfartal i gynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wrth lunio barnau am gyrhaeddiad dysgwyr o fewn lleoliad.

- Sicrhau bod gwaith gan leoliadau i ymgorffori darpariaeth ADY yn cael ei werthfawrogi'n llawn yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

*'Caiff ysgolion eu barnu ar ganlyniadau ar gyfer disgyblion fodd bynnag gall y canlyniadau hyn fod yn amhosibl ar gyfer rhai dysgwyr ag ADY, yn enwedig wrth i anghenion mwy cymhleth gael eu bodloni mewn lleoliadau prif ffrwd. Sut yr adlewyrchir hyn yn y model categoreiddio ysgolion?*

## Cwestiwn ymgynghori 2: Os dylid cyflwyno cynlluniau datblygu unigol gam wrth gam, sut y gellid eu rhannu yn ôl tranche?

Rhagdybiaeth Llywodraeth Cymru yw y byddai unrhyw ddysgwyr sydd angen cynllun am y tro cyntaf yn cael cynllun datblygu unigol yn awtomatig o'r amser y bydd y system newydd yn dod i rym. Ar gyfer y cwestiwn hwn felly, cafodd pob grŵp ystyried pum dewis. Roedd y dewisiadau ymwneud â'r broses o droi cynlluniau presennol – datganiadau, cynlluniau addysg unigol, cynlluniau dysgu a sgiliau, cynlluniau ôl-16 a chynlluniau addysg personol – yn gynlluniau datblygu unigol. Ar sail eu hymatebion gofynnwyd i bob grŵp raddio'i dewisiadau, gydag 1 fel yr opsiwn mwyaf poblogaidd a 5 y lleiaf poblogaidd.

Mewn gwirionedd, dim ond eu dewisiadau mwyaf poblogaidd a lleiaf poblogaidd a nododd rhai grwpiau. Yn gyffredinol nid oedd consensws gyda'r adborth; yn arbennig prin fod grwpiau gyda chynrychiolaeth traws-sector yn dangos unrhyw gytundeb. Y farn gyffredin fodd bynnag, oedd pa ddewis bynnag a fabwysiedir y dylai'r ffocws fod ar ansawdd a chael y broses yn iawn ar gyfer y dysgwr.

Mae Tabl 1 yn disgrifio ymatebion pob un o'r 90 grŵp yn y gweithdai gan roi cyfartaledd ar gyfer dibenion cymharu.

| Tabl 1                                        |                                                                                                            |             |         |
|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------|---------|
| Dewis                                         | Tranche                                                                                                    | Cyfartaledd | Graddio |
| 2a: Cynlluniau statudol presennol             | <i>Tranche 1: Datganiadau a CAP</i><br><i>Tranche 2: Cynlluniau anstatudol</i>                             | 2.44        | 2       |
| 2b: Lleoliad Addysg                           | <i>Tranche 1: Ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar</i><br><i>Tranche 2: Ôl-16</i>                    | 3.24        | 4       |
| 2c: Cyfnodau allweddol                        | <i>Tranche 1: Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2</i><br><i>Tranche 2: Cyfnod allweddol 3, 4 ac ôl-16</i> | 3.02        | 3       |
| 2ch: Cyfnodau pontio arwyddocaol              | <i>Tranche 1: Symud lleoliadau, awdurdod lleol neu gyfnod allweddol</i><br><i>Tranche 2: Pawb arall</i>    | 2.19        | 1       |
| 2d: Awdurdodau Lleol yn 'Mabwysiadu'n gynnar' | <i>Tranche 1: Awdurdodau lleol sydd fwyaf 'parod' (awdurdodau treialu)</i><br><i>Tranche 2: Pawb arall</i> | 3.91        | 5       |

Y dewis mwyaf poblogaidd ar gyfer cyflwyno fesul cam oedd Opsiwn 2ch) *'Pwyntiau pontio arwyddocaol'* rhwng lleoliadau, cyfnod allweddol neu awdurdod lleol. Roedd y rhesymau a roddwyd i gyfiawnhau'r dewis hwn yn canolbwyntio ar ddarparu digon o amser i feithrin capasiti o fewn lleoliadau, y gallu i reoli'r broses a phryderon ynghylch llwyth gwaith y cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol. Awgrymodd yr adborth y byddai canolbwyntio ar droi cynlluniau presennol nifer gyfyngedig o ddysgwyr ar adegau pontio allweddol yn caniatáu amser ac adnoddau i fod yn fwy penodol, yn galluogi ysgolion i ddatblygu arbenigedd gyda charfannau unigol o ddysgwyr fel rhan o gynllunio pontio effeithiol. Teimlai cyfranogwyr hefyd y dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys plant 0-3 oed mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd ar gyfer cyflwyno fesul cam oedd 2a) *'Cynlluniau statudol presennol'* yn dechrau gyda'r dysgwyr hynny sydd eisoes â chynlluniau statudol ac anstatudol cyn ymestyn hawliau o'r fath i garfan newydd. Y farn gyffredinol oedd y dylid blaenoriaethu dysgwyr gyda'r lefel uchaf o angen. Gwelwyd hyn fel opsiwn ymarferol gan fod y rhain yn cynrychioli nifer llawer llai o ddysgwyr sydd eisoes wedi'u nodi a'u hanghenion wedi eu diffinio. Hefyd dylai gweithio amlasiantaethol fod wedi ei sefydlu'n dda ar gyfer y dysgwyr hyn. Teimlwyd fod y dull yma yn decach gan na chyfyngir i ddysgwyr mewn lleoliad neu gyfnod allweddol penodol, byddai'n clymu gyda chylchoedd adolygu presennol a byddai'n lleddfu pryderon rhieni ynghylch colli datganiadau o bosibl.

O gryn dipyn, y dewis lleiaf poblogaidd oedd 2d) y byddai *'Awdurdodau Lleol yn 'Mabwysiadu'n gynnar'* oherwydd teimlwyd bod y dull hwn yn annheg, yn arwain at anghysondeb ledled Cymru a byddai'n creu dryswch gyda dwy drefn yn gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Byddai'r dull hwn yn creu anawsterau yn arbennig ar gyfer dysgwyr sy'n symud rhwng awdurdodau lleol, er enghraifft y rhai mewn gofal.

Waeth pa opsiwn a ddewiswyd, roedd grwpiau'n teimlo y dylai'r ymagwedd fod yn un oedd yn canolbwyntio ar y dysgwr, a bod cymorth digonol ac ariannu ar gyfer gweithredu cynllun datblygu unigol yn hollbwysig. Cytunodd mwyafrif y grwpiau ei bod yn angenrheidiol cael dyddiad terfyn ar gyfer pryd y dylai'r cynlluniau datblygu unigol gael eu gweithredu'n genedlaethol er mwyn osgoi bod dwy system yn cyd-redeg am gyfnod estynedig.

*'Mae angen dyddiad cau pendant ar gyfer gweithredu gan bob lleoliad, ond mae angen hyfforddiant staff ar bob ysgol cyn dechrau gweithredu.'*

*'Mae amseriad y gweithredu yn hollbwysig. Mae angen i'r holl agweddau, cyllid a hyfforddiant, fod yn eu lle cyn dechrau fel y gellir gwireddu'r weledigaeth gyffrous ac ysbrydoledig hon.'*

## **Cwestiwn ymgynghori 3: Beth yw eich barn am y blaenoriaethau o ran sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i bartneriaid darparu wrth iddynt baratoi i drosglwyddo i'r system newydd?**

Gofynnwyd i'r grwpiau ystyried eu blaenoriaethau o dan bedwar prif faes:

- datblygu'r gweithlu
- cyllid grant
- penodi cefnogwyr strategol ADY
- anghenion cymorth arall

### **Datblygu'r gweithlu**

O gryn dipyn, yr angen am gymorth i ddatblygu'r gweithlu ar gyfer staff mewn ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a nodwyd fel y mwyaf cyffredin i sicrhau bod y system newydd yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod datblygu arfer cyson ar draws pob sector yn hanfodol, gyda'r angen i geisiadau ar gyfer hyfforddiant a chymorth fod yn gyson yn genedlaethol. Canolbwyntiodd yr adborth ar ddatblygu sgiliau ar dair lefel.

### **Datblygu sgiliau craidd**

Nodwyd bod datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen trawsnewid ADY ac i wella sgiliau holl ymarferwyr i nodi a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn flaenoriaeth. Croesawyd y symudiad i gynllunio wedi ei ganolbwyntio ar y person, ond roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod hyfforddiant ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person hefyd yn flaenoriaeth i sicrhau bod barn dysgwyr yn cael ei ystyried mewn ffordd ystyrlon. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddynodi diwrnodau HMS penodol i gefnogi gweithrediad y Mesur a'r Cod mewn ysgolion. Hefyd mae angen i leoliadau eraill, gan gynnwys lleoliadau cyn ysgol nas cynhelir, gael mynediad cyfartal i gefnogaeth datblygu'r gweithlu o safon. Pwysleisiodd cyfranogwyr yr angen i:

- Archwilio'r gweithlu presennol i nodi anghenion datblygiad proffesiynol ym mhob sector.
- Teilwra hyfforddiant i gyd-fynd ag anghenion y sectorau a lleoliadau gwahanol.
- Sicrhau bod hyfforddiant yn hwyluso cydweithio rhwng asiantaethau ac awgrymwyd cynnal hyfforddiant ar y cyd gyda chyfranogiad amlasiantaethol.
- Ymdrin â phryderon am raddfa'r hyfforddiant ar gyfer sefydliadau addysg bellach o ystyried nifer fawr y staff ac arbenigeddau pwnc.
- Ategu cyfleoedd datblygiad proffesiynol wyneb yn wyneb gyda phhecyn hyfforddiant e-ddysgu.
- Archwilio sut y gall arbenigedd ADY gael mwy o gydnabyddiaeth yn y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu a dysgu.

I helpu i sicrhau bod hyfforddiant yn gynaliadwy, awgrymodd cyfranogwyr y dylai ysgolion sydd â phrofiad o weithredu cynlluniau datblygu unigol yn llwyddiannus drwy eu cyfranogiad mewn prosiectau peilot anghenion dysgu ychwanegol chwarae rôl yn modelu arfer a mentora ysgolion eraill. Yn yr un modd dylai awdurdodau lleol sydd â phrofiad o gefnogi ysgolion i weithredu cynlluniau datblygu unigol llwyddiannus rannu strategaethau a chwarae rhan weithredol mewn cefnogi awdurdodau lleol eraill. Ymysg yr enghreifftiau o adborth roedd:

*‘Bydd rhaglen datblygu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ymarferwyr cyn ac yn ystod y broses weithredu yn hanfodol.’*

*‘Rydym eisiau gwneud y cynigion yn y Bil i weithio. Rydym am fod yn fwy effeithlon ac effeithiol ond mae adnoddau ar bob lefel o dan fwy o bwysau nag erioed.’*

*‘Rydym yn croesawu'r diwygiadau a'r dull o ymarfer wedi ei ganolbwyntio ar y person, ond mae goblygiadau llwyth gwaith enfawr i'r cyfnod pontio.’*

## **Datblygu uwch sgiliau**

Canfuwyd bod rôl y cydlynnydd ADY yn ganolog i gyflwyno diwygiadau'r ADY yn llwyddiannus. Roedd yr angen i ddarparu disgwyliadau clir o rôl y cydlynnydd ADY, a datblygiad proffesiynol y cydlynwyr ADY, y rhai mewn swydd a'r rhai sydd newydd eu penodi, yn ddealladwy yn cael eu nodi fel blaenoriaethau. Roedd adborth hefyd yn awgrymu y dylai cydlynwyr ADY fod yn rhan o dîm uwch arweinyddiaeth lleoliad gan fod swyddogaeth gwneud penderfyniadau yn angenrheidiol i arwain gweithrediad effeithiol y drefn newydd.

Mae angen i'r trefniadau pontio sicrhau bod llwyth gwaith yn rhesymol i bawb sy'n ymwneud â gweithredu. Tra roeddent yn cydnabod y byddai gofynion yn amrywio mewn gwahanol leoliadau, roedd llwyth gwaith y cydlynnydd ADY a'r amser sydd ei angen i gyflawni'r rôl yn effeithiol yn bryder mawr i'r rhan fwyaf o gyfranogwyr. Roedd y farn yn amrywio ynghylch a ddyliai rôl y cydlynnydd ADY fod yn rôl addysgu neu beidio. Roedd rhai cyfranogwyr yn argymhell yn gryf ei bod yn ofynnol i gydlynwyr ADY gael, fel lleiafswm, 50% o amser digyswllt. Awgrymodd lleiafrif o grwpiau o blaid cyflwyno model clwstwr o gefnogaeth, gan awgrymu y byddai cael cydlynnydd ADY nad yw'n addysgu wedi ei rannu ar draws nifer o ysgolion yn ddefnyddiol o ran rheoli'r llwyth gwaith, fel y gallai penodi cymorth gweinyddol hyfforddedig.

*‘Mae hyfforddiant cydlynwyr ADY yn hanfodol; mae angen iddynt gael gwybodaeth lawn a'u huwchsgilio fel y gallant hysbysu gweddill y staff yn yr ysgol. Byddant yn allweddol o ran trefnu timau amlddisgyblaethol.’*

Roedd safbwyntiau yn amrywio o ran a ddylid disgwyl i'r cydlynwyr ADY gael cymhwyster meistr arbenigol. Tra'n cydnabod yr angen i'r cydlynwyr ADY gael statws cydnabyddedig, dadleuodd rhai o'r cyfranogwyr yn gryf y dylid hefyd gydnabod profiad blaenorol, sgiliau, ymrwymiad ac ymroddiad. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu mwy o gymhellion ar gyfer athrawon a darlithwyr i ddod yn ymarferwyr arbenigol ADY.

## Datblygu sgiliau arbenigol

Gwnaeth llai o grwpiau adrodd yn benodol ar yr agwedd hon ar ddatblygu'r gweithlu. Canolbwyntiodd sylwadau yn bennaf ar yr angen am fynediad teg i wasanaethau cymorth arbenigol ac asiantaethau. Mynegwyd pryderon am anghysondebau mewn lefelau o gefnogaeth ar draws awdurdodau lleol ac yn genedlaethol. Yn benodol, cafodd pryderon eu cyfleu ynglŷn â mynediad at Wasanaethau Cynhwysiant a'r angen i ddatblygu capasiti darpariaeth arbenigol lleol, megis seicolegwyr addysgol, a therapyddion iaith a lleferydd ac athrawon pobl fyddar, i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Canolbwyntiodd adborth hefyd ar yr angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol i ehangu capasiti gwasanaethau cymorth arbenigol awdurdod lleol a'r rhai a ddarperir gan randdeiliaid eraill i adeiladu seilwaith proffesiynol a fyddai'n gallu bodloni'r galw.

Roedd materion eraill a nodwyd gan gyfranogwyr a oedd yn gysylltiedig â datblygu'r gweithlu yn cynnwys yr angen i holl raglenni Addysg a Hyfforddiant Gychwynnol i Athrawon (HAGA) fynd i'r afael â chynhwysiant ac ADY yn fwy arwyddocaol gan ystyriwyd nad yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar hyn o bryd, ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a chynorthwyrwyr addysgu. Teimlai'r cyfranogwyr y dylai athrawon sydd newydd gymhwyso fod yn ymwybodol o anghenion y Cod ADY, datblygiad plentyn a gwerth dulliau gwahaniaethol. Ymysg yr enghreifftiau o adborth roedd:

*'Mae angen i HAGA ganolbwyntio mwy ar gynhwysiant ac ADY. Mae angen i hyn fod yn rhan annatod o bob sesiwn fel y ceir newid diwylliant llwyr i ADY.'*

*'Mae gormod o athrawon dan hyfforddiant yn cyrraedd ysgolion heb unrhyw syniad am wahaniaethu, ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person a sut i adnabod anawsterau dysgu penodol.'*

Awgrymwyd hefyd y dylid darparu gwybodaeth am ADY a chynhwysiant ar gyfer y rhai sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Bwrdd Arholiadau Meithrin Cenedlaethol (NNEB) Diploma i fod yn Weinyddes Feithrin a Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (GDDP). Angen arall a nodwyd oedd darparu rhaglen genedlaethol o hyfforddiant i lywodraethwyr ynghylch y diwygiadau ADY a'r dyletswyddau deddfwriaethol newydd.

Er bod cyfranogwyr yn croesawu hawl dysgwyr i ddarpariaeth ADY iaith Gymraeg, mae darparu darpariaeth briodol, cymorth ac adnoddau i'r dysgwr yn ei ddewis iaith, yn arbennig yr angen i ddarparu cymorth ADY yn Gymraeg ac ieithoedd cymunedol lleiafrifol eraill, yn parhau i fod yn her i lawer o awdurdodau lleol.

*'Mae angen i wasanaethau iaith Gymraeg fod yn flaenoriaeth; mae angen i blant ag ADY gael mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf fel arall maent o dan anfantais ar unwaith.'*

## Cyllid grant

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes becyn buddsoddiad o £20 miliwn ar gyfer y cyfnod o 2017-18 tan 2020-21 i

gefnogi'r rhaglen drawsnewid. Nod y buddsoddiad yw sicrhau bod partneriaid darparu mor barod â phosibl i weithredu'r fframwaith deddfwriaethol newydd arfaethedig ac y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i ddysgwyr. Tra'n croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru i gefnogi rhaglen trawsnewid ADY, pwysleisiodd cyfranogwyr yr angen i sicrhau cydraddoldeb o ran cyllido ar draws yr holl sectorau a lleoliadau. Roedd cyllido teg, cynaliadwy, yn cael ei nodi'n gyffredin fel cymorth angenrheidiol a hanfodol i weithrediad llwyddiannus y diwygiadau ADY. Awgrymodd cyfranogwyr bod angen cyllido am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys i:

- Alluogi awdurdodau lleol i gynllunio'n strategol a blaenoriaethu anghenion hyfforddi
- Cyflwyno a lledaenu gwybodaeth am y Bil a'r Cod newydd
- Hyfforddi staff presennol o'r holl asiantaethau gan gynnwys gweithwyr proffesiynol yn y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Plant
- Cyflwyno hyfforddiant ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person i ymarferwyr addysg a gweithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau
- Cwrdd ag anghenion costau cyflenwi er mwyn galluogi athrawon i fynychu hyfforddiant
- Recriwtio staff ychwanegol i gefnogi gweithredu cynlluniau datblygu unigol
- Datblygu darpariaeth ADY mewn sefydliadau addysg bellach
- Datblygu darpariaeth arbenigol a darparu eiriolaeth

Mynegwyd pryderon ynghylch sut y caiff cyllid ei ddyrannu, y meini prawf ar gyfer cael gafael ar gyllid a pha mor gynaliadwy y bydd cyllido ADY yn y tymor hwy.

## **Cefnogwyr strategol ADY**

Nifer gymharol fach o grwpiau a wnaeth sylwadau ar y cynnig i benodi cefnogwyr strategol ADY, tîm bach i ddarparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol a phartneriaid darparu yn ystod y cyfnod pontio. Bydd yr unigolion hyn yn gwneud cyfraniad allweddol i asesu parodrwydd partneriaid darparu, i fonitro cydymffurfiaeth unwaith i'r dyletswyddau cyfreithiol newydd gael eu rhoi ar waith, ac i werthuso effaith y newidiadau. Roedd yr adborth yn gefnogol ar y cyfan ynghylch y cynnig i benodi cefnogwyr strategol ADY y credai cyfranogwyr y byddent yn gwneud cyfraniad allweddol wrth sicrhau ansawdd a chysondeb y cynlluniau datblygu unigol, er eu bod yn teimlo bod angen eglurder ar swyddogaeth y cefnogwr strategol.

Yn yr un modd croesawodd nifer fach o gyfranogwyr swyddogaeth strategol y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig o fewn byrddau iechyd i gefnogi cynllunio effeithiol a chydweithredu rhwng asiantaethau ond dymunent gael eglurhad pellach am eu lefel o ymgysylltu a'u hatebolrwydd. Awgrymwyd hefyd y dylid treialu'r swyddogaeth gan i bryderon gael eu mynegi am ddichonoldeb capasiti un person i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol yn ymarferol.

## **Anghenion cymorth eraill**

Cyflwynwyd amrywiaeth o anghenion cymorth eraill hefyd yn ystod sesiynau'r gweithdai. Nododd cyfranogwyr yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r Bil, y Cod

ADY a'r rheoliadau, a gweithredu'r cynlluniau datblygu unigol gyda'r holl randdeiliaid. Yn benodol, roedd cyfranogwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â rhieni/gofalwyr mewn ffordd ystyrlon i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Bil, er mwyn rheoli eu disgwyliadau. Roeddent yn teimlo y bydd angen gwybodaeth hygyrch ar rieni/gofalwyr am y rhaglen trawsnewid ADY a sicrwydd bod trefniadau cymorth presennol ar gyfer eu plant yn dal mewn 'grym' tra bod y cyfnod pontio i'r cynlluniau datblygu unigol yn digwydd. Hefyd nododd y cyfranogwyr yr angen i ddarparu cymorth wedi'i dargedu ac eiriolaeth annibynnol, ddiuedd i rieni/gofalwyr fel bo'r angen yn ystod y cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person a datblygiad y cynlluniau datblygu unigol.

Teimlai cyfranogwyr ei bod yn hanfodol cael arweiniad diamwys yn y Cod ADY cyn ei weithredu. Teimlent y byddai angen i'r Cod ADY ddarparu cyfeiriad clir o ran rhwymedigaethau cyfreithiol a fframweithiau ar gyfer gweithio ar y cyd er mwyn mabwysiadu ymagwedd gyson a graddol. Er mwyn osgoi biwrocratiaeth ddiangen, teimlai cyfranogwyr bod angen i'r Cod ADY nodi'n glir swyddogaethau, cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd yr holl randdeiliaid, gan sicrhau ymagwedd gyson tuag at gyflwyno cynlluniau datblygu unigol ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol. Roeddent yn teimlo bod angen cyngor ar yr holl randdeiliaid ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu, canllawiau ar sut y caiff arian ei reoli a sut y caiff adnoddau eu defnyddio, a chyfeiriad ar ystyriaethau ymarferol megis p'un a ddylid rhyddhau cydlynwyr ADY o ymrwymadau addysgu. Cafwyd ceisiadau hefyd ar i'r Cod ddefnyddio iaith 'syml' i ddiwallu anghenion ymarferwyr a theuluoedd. Roedd ymatebion hefyd yn cynnwys ceisiadau i egluro swyddogaeth y sector nas cynhelir; yn arbennig, i ddarparu mwy o wybodaeth ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau datblygu unigol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn y sector preifat, yn ogystal â llwybr clir at gymorth a chynghor ar y camau nesaf.

Croesawyd mwy o gydweithrediad rhwng asiantaethau gan gyfranogwyr, gyda rhai rhybuddion am yr angen am gydweithio effeithiol i greu cynlluniau datblygu unigol a pharodrwydd i rannu baich gwaith. Teimlai rhai cyfranogwyr fod y rhaglen trawsnewid ADY yn gyfle i wella protocolau rhannu gwybodaeth ac i integreiddio systemau data i alluogi pob grŵp o weithwyr proffesiynol i gael mynediad i wybodaeth am ddysgwr a mynd i'r afael â her hygludedd trawsffiniol a rhannu gwybodaeth. Er na holwyd cyfranogwyr yn benodol, gofynnodd lleiafrif o grwpiau am dampled cynllun datblygu unigol safonol, yn ddelfrydol un electronig a ellid ei olygu, y teimlent y byddai'n gymorth i sicrhau cysondeb a dilyniant ar draws asiantaethau a lleoliadau.

## Sylwadau i gloi

Drwy gydol yr wyth gweithdy cafwyd teimlad cyffredinol bod y rhaglen trawsnewid ADY i'w chroesawu a bod yna ewyllys gan bawb ar y cyd i'w 'chael yn iawn' ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr her yw sut i ddal gafael ar ewyllys da a phroffesiynoldeb ymarferwyr i weithredu'r drefn ADY newydd yn effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr; adeiladu ar yr arferion rhagorol sydd eisoes yn bodoli heb ruthro'r broses ac effeithio ar ansawdd. Fel y dywedodd un cyfranogwr wrth grynhoi,

*'Mae angen bod yn realistig a pheidio dechrau gweithredu'r Ddeddf sy'n ceisio sicrhau tegwch drwy drefniadau sy'n annheg.'*